

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Gwasanaethau Sgrinio ar gyfer Diabetes Screening Services for Diabetes

C8 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau sgrinio ar gyfer diabetes yng Nghymru? OAQ0114(HSS) [W]

Q8 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on screening services for diabetes in Wales? OAQ0114(HSS) [W]

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth sgrinio ar gyfer diabetes yng Nghymru, a bydd yn sicrhau bod ein polisiau'n adlewyrchu cyngor y pwyllgor sgrinio cenedlaethol. Bydd y pwyllgor sgrinio yn darparu adroddiad ar ein gwasanaeth sgrinio ynghyd ag argymhellion yn ddiweddarach eleni.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): The Welsh Assembly Government acknowledges the importance of screening services for diabetes in Wales, and will ensure that our policies are in line with the advice of the national screening committee. The screening committee will provide us with a report on screening, including its recommendations, later this year.

*Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ0109(HSS), yn ôl.
Question 9, OAQ0109(HSS), withdrawn.*

Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol Sexually Transmitted Diseases

Q10 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on sexually transmitted diseases? OAQ0145(HSS)

C10 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar glefydau a drosglwyddir yn rhywiol? OAQ0145(HSS)

Brian Gibbons: Sexual health is of concern. Rates of sexually transmitted infections continue to increase and, despite recent welcome progress in reducing rates of teenage conception, we still have much to do. We will continue to tackle this through

Brian Gibbons: Mae iechyd rhywiol yn destun pryder. Mae cyfraddau heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn parhau i gynyddu, ac er gwaethaf cynnydd diweddar mewn gostwng cyfraddau geni ymhlith yr ardegau, mae gennym lawer ar ôl i'w

ensuring that all people have access to sexual health information, advice and services.

wneud. Parhawn i fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod gan bob person fynediad at wybodaeth ynglŷn â iechyd rhywiol, cyngor a gwasanaethau.

Strategaeth Arthritis Genedlaethol The National Arthritis Strategy

Q11 Owen John Thomas: When will the national arthritis strategy, announced in July 2002, be introduced? OAQ0140(HSS)

C11 Owen John Thomas: Pryd y cyflwynir y Strategaeth Arthritis Genedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002? OAQ0140(HSS)

Brian Gibbons: Work is progressing well on the arthritis and musculoskeletal policy and action plan with an anticipated launch during summer 2005.

Brian Gibbons: Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y polisi a'r cynllun gweithredu ar arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol, a disgwylir iddynt gael eu lansio yn ystod haf 2005.

Amseroedd Aros am Driniaeth gan y GIG yn Abertawe Waiting Times for NHS Treatment in Swansea

Q12 Peter Black: Will the Minister make a statement on waiting times for NHS treatment in Swansea? OAQ0096(HSS)

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amseroedd aros am driniaeth gan y GIG yn Abertawe? OAQ0096(HSS)

Brian Gibbons: At the end of January 2005, some 8,411 people were waiting for in-patient and day-case treatment at Swansea NHS Trust. Of these, 1,032 were waiting over 12 months and 455 of them were waiting over 18 months. The health community will be expected to achieve the targets by 31 March 2005.

Brian Gibbons: Ar ddiwedd Ionawr 2005, yr oedd rhyw 8,411 o bobl yn aros am driniaeth fel cleifion mewnol ac fel cleifion allanol yn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe. O'r rhain, yr oedd 1,032 yn aros dros 12 mis ac yr oedd 455 ohonynt yn aros dros 18 mis. Bydd disgwyl i'r gymuned iechyd gyflawni'r targedau erbyn 31 Mawrth 2005.

Amseroedd Aros Cleifion Allanol Out-patient Waiting Times

Q13 Michael German: What action is the Welsh Assembly Government taking to tackle the problem of out-patient waiting times? OAQ0134(HSS)

C13 Michael German: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblem amseroedd aros cleifion allanol? OAQ0134(HSS)

Brian Gibbons: New targets for 2005-06 will ensure that, by March 2006, no patient will be waiting longer than 12 months for a first outpatient appointment. The introduction of new outpatient booking systems and the extended use of therapy led outpatient services are current initiatives to help reduce outpatient waits across Wales.

Brian Gibbons: Bydd y targedau newydd ar gyfer 2005-06 yn sicrhau na fydd unrhyw glaf yn aros mwy na 12 mis am yr apwyntiad cyntaf fel claf allanol, erbyn Mawrth 2006. Mae cyflwyno systemau newydd ar gyfer trefnu apwyntiadau, yn ogystal â defnyddio mwy ar wasanaethau a arweinir gan therapi ar gyfer cleifion allanol, yn fentrau cyfredol i helpu lleihau achosion lle mae cleifion allanol yn aros ledled Cymru.

Ysgafnhau Llwyth Gwaith Meddygon Teulu Lighten the Workload of General Practitioners

Q14 Michael German: What action is the Welsh Assembly Government taking to lighten the workload of GPs? OAQ0133(HSS)

C14 Michael German: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ysgafnhau llwyth gwaith meddygon teulu?

OAQ0133(HSS)

Brian Gibbons: We are looking at ways of addressing workload and job satisfaction that will lead to GPs wishing to remain in employment longer. Guidance will be issued on GPs with a special interest. We are also looking at the possibility of introducing physician's assistants, although this work is at an early stage.

Brian Gibbons: Yr ydym yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â llwyth gwaith a boddhad mewn swydd fel y bydd meddygon teulu am barhau â'u gwaith yn hwy. Rhoddir canllawiau ar gyfer meddygon teulu â buddiant arbennig. Yr ydym hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ddod â chynorthwywyr meddygon, ond mae'r gwaith hwn mewn cyfnod cynnar.

Penderfynyddion Afiechyd Determinants of Ill Health

Q15 David Lloyd: What plans does the Minister intend to introduce in the next 12 months with regard to the determinants of ill health? OAQ0093(HSS)

C15 David Lloyd: Pa gynlluniau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y 12 mis nesaf mewn perthynas â phenderfynyddion afiechyd? OAQ0093(HSS)

Brian Gibbons: Existing strategies and plans provide the basis for a wide range of action to tackle health determinants as part of the Assembly Government's own response to Health Challenge Wales. These include 'Climbing Higher', which is a radical new approach to increasing levels of physical activity through action across policy areas.

Brian Gibbons: Mae strategaethau a chynlluniau cyfredol yn sail i ystod eang o gamau i fynd i'r afael â phenderfynyddion afiechyd fel rhan o ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Her Iechyd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys 'Dringo'n Uwch', sy'n ymagwedd newydd a radicalaidd at godi lefelau gweithgareddau corfforol drwy gamau ar draws meysydd polisi.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Blaenoriaethau i'r Iaith Gymraeg Priorities for the Welsh Language

C13 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer yr iaith Gymraeg? OAQ0105(CWS)

Q13 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on his priorities for the Welsh language? OAQ0105(CWS)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae gan Lywodraeth y Cynulliad weledigaeth glir ynglŷn a'r iaith Gymraeg, sef Cymru ddwyieithog. Mae manylion y polisi wedi eu hysgrifennu yn nogfen 'Iaith Pawb'.

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The Welsh Assembly Government has a clear vision for the Welsh language, namely a bilingual Wales. The details of the policy have been written in the 'Iaith Pawb' document.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ0078(CWS), yn ôl.
Question 14, OAQ0078(CWS), withdrawn.*

Y Niferoedd a Fanteisiodd ar Nofio am Ddim The Take-up of Free Swimming

Q15 Christine Gwyther: Will the Minister provide an update on the take-up of free swimming over the Christmas period? OAQ0129(CWS)

C15 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog adrodd y diweddaraf am y niferoedd a fanteisiodd ar y cynllun nofio am ddim dros gyfnod y Nadolig?

OAQ0129(CWS)

Alun Pugh: Data returns from local authorities for all free swimming periods during the financial year 2004-05 are currently being processed. Informal feedback suggests a good take-up by the public on both the children and young people scheme and the older people's pilot.

Alun Pugh: Mae ffurflenni data gan awdurdodau lleol ar gyfer bob cyfnod y cynllun nofio am ddim yn ystod blwyddyn ariannol 2004-05 yn cael eu prosesu ar hyn o bryd. Awgryma'r adborth anffurfiol bod nifer dda o'r cyhoedd wedi cymryd rhan yn y cynllun plant a phobl ifanc a'r cynllun peilot pobl hŷn.